ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sicrhau mynediad i'r Cwricwlwm Llawn


## Beth yw eich barn chi?



# Cyflwyniad



Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud newidiadau i'r hyn y mae plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.



Rydym yn awgrymu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael cyfle i ddysgu am:

- grefydd a ffydd
- **perthnasoedd** a **rhywioldeb.**



**Perthynas** yw pan fydd pobl yn dechrau adeiladu cyfeillgarwch ac yn nes ymlaen mewn bywyd yn cwympo mewn cariad â'i gilydd ac yn dod yn gwpl.



**Rhywioldeb** yw deall bod gan bobl wahanol deimladau tuag at bobl eraill.




Bydd y ddogfen hawdd ei deall hon yn egluro ein **cynigion**.



Mae **cynnig** yn syniad neu'n awgrym i newid rhywbeth.



Cyn i ni wneud penderfyniad am ein cynigion, rydyn n i eisiau gwybod beth yw eich barn chi.




Darllenwch y ddogfen hon ac yna dywedwch wrthym beth yw eich barn trwy ateb y cwestiynau sy'n dechrau ar dudalen 8.




Rydyn ni angen eich atebion erbyn dydd Iau, 28 Tachwedd 2019.

# Pam gwneud newidiadau?



Mae athrawon yng Nghymru yn edrych ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu mewn ysgolion.



Maent yn awgrymu pethau newydd y dylid eu dysgu mewn ysgolion.




Maen nhw eisiau i blant a phobl ifanc wybod am lawer o wahanol bethau.



Maen nhw eisiau i blant a phobl ifanc ddeall sut mae gwahanol bobl yn gweld gwahanol bethau.

## Gall rhieni a gofalwyr atal eu plant rhag dysgu am rai pethau.




Ar hyn o bryd gall rhieni a gofalwyr atal eu plant rhag mynd i wersi am:

- **addysg grefyddol (AG)**



- **addysg rhyw a pherthnasoedd**



**Addysg grefyddol** yw lle rydych chi'n dysgu am wahanol grefyddau a'r gwahanol bethau y mae pobl yn eu credu.



**Addysg rhyw a pherthnasoedd** yw lle rydych chi'n dysgu am ryw, rhywioldeb a pherthnasoedd da.

# Ein cynigion



## Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Rydym yn awgrymu y dylid cael 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb' yn lle 'Addysg Rhyw'.



Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i ddeall sut i ddechrau a chadw perthnasoedd da.



Bydd pobl ifanc hefyd yn dysgu am:

- barchu pobl p'un a ydyn nhw'n hoyw neu'n syth



- sut i gadw'n ddiogel pan fyddwch chi mewn perthynas



- iechyd a **lles**.



**Lles** yw teimlo'n hapus ac yn iach yn eich corff a'ch meddwl.

# Gorfodol



Mae **gorfodol** yn golygu bod yn rhaid i blant fynd i'r gwersi hyn.



Rydym yn awgrymu bod yn rhaid i bob plentyn a pherson ifanc fynd i wersi am:

- addysg grefyddol
- cydberthynas a rhywioldeb.

Rydym am i'r gwersi hyn fod yn orfodol.



Rydym yn awgrymu y dylai plant a phobl ifanc fynd i'r gwersi hyn rhwng 3 ac 16 oed.

Byddai'r wybodaeth a roddir yn y gwersi hyn yn addas ar gyfer oedran a chefndir y plant.

# Beth yw eich barn chi?




Rydym yn deall y gallai pobl fod yn poeni am y cynigion hyn.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn trwy ateb y cwestiynau hyn.



## Amdanoch chi

Dywedwch wrthym pa un o'r canlynol ydych chi.

- [ ] Plentyn neu berson ifanc.
- [ ] Rhiant neu ofalwr.
- [ ] Aelod arall o deulu.
- [ ] Athro neu lywodraethwr mewn ysgol.
- [ ] Rhywun arall sy'n ymwneud ag ysgolion ac addysgu.
- [ ] Yn siarad ar ran eich sefydliad. Os felly, beth yw enw eich sefydliad?
- [ ] Yn siarad drosoch eich hun.
- [ ] Arall-dywedwch

# Eich barn



**Cwestiwn 1:** Beth fyddai'n digwydd i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr neu ysgolion pe bai'n rhaid i bob plentyn a pherson ifanc fynd i wersi addysg grefyddol a gwersi chydberthynas ac addysg



**Cwestiwn 2:** Pa gefnogaeth neu help fyddai ei angen?




**Cwestiwn 3:** Rydym yn awgrymu y bydd y newidiadau hyn yn digwydd o fis Medi 2022 ar gyfer holl blant a phobl ifanc ysgolion cynradd ym Mlwyddyn 7.




Byddai Blwyddyn 8 yn cychwyn yn 2023, byddai Blwyddyn 9 yn cychwyn yn 2024 ac ati.




Ydych chi'n meddwl y dylai pob plentyn a pherson ifanc orfod mynd i wersi addysg grefyddol a pherthnasoedd ac addysg rhywioldeb o fis Medi 2022?

☐ Ydw.

☐ Nac ydw.

☐ Ddim yn siŵr.

Pam ydych chi'n meddwl






**Cwestiwn 4:** A ddylem ni newid enw 'addysg grefyddol'?

☐ Dim newid.

☐ Dylech-newidiwch ef i 'grefydd, **gwerthoedd** a **moeseg**'.



Mae **Gwerthoedd** yn bethau sy'n bwysig i chi a phopeth rydych chi'n ei wneud.

Mae **Moeseg** yn edrych ar yr hyn sy'n iawn ac yn anghywir.



☐ Dylech-newidiwch ef i 'crefydd a **bydolwg**'.



Mae **bydolwg** yn wahanol ffyrdd o edrych ar bethau a'r ffordd y mae pobl eraill yn byw.

☐ Arall – rhowch yr enw a dywedwch wrthym pam rydych chi'n meddwl hynny.





**Cwestiwn 5:** A fyddai'r newid hwn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r Gymraeg?




**Cwestiwn 6:** Sut y gellid newid y cynigion hyn i:

- helpu mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg.



**Cwestiwn 7:** Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill, dywedwch wrthym yma.



Rydym yn bwriadu rhoi rhai o'r sylwadau a dderbyniwn ar y rhyngrwyd. Os yw'n well gennych ein bod yn cadw'ch sylwadau'n breifat, ticiwch yma.

# Diolch



Diolch am ddweud eich barn wrthym. Bydd eich atebion yn helpu Llywodraeth Cymru pan fyddant yn gwneud eu penderfyniad.

Postiwch eich atebion i'r:



**Tîm Iechyd a Lles**
**Cangen Celfyddydau, Dyniaethau a Lles**
**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3QD**





Neu anfonwch e-bost at:

**AHWB@llyw.cymru**

# Am wybodaeth bellach

Os ydych chi angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.



e-bost: **AHWB@llyw.cymru**




Gwefan: www.llyw.cymru



Ffôn: 0300 0604400



Drwy'r post:

**Tîm Iechyd a Lles**
**Cangen Celfyddydau, Dyniaethau a Lles**
**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3QD**